# Dogfennau Ategol - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 4 Mawrth 2024

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

# O bell - Pecyn Atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

## 4 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.40 - 13.45)

**4.1 Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd Grwpiau Rhyngweinidogol**

(Tudalen 1)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-24 - Papur 20 - Gohebiaeth gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Diwylliant a'r Diwydiannau Creadigol a'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Chwaraeon, 1 Mawrth 2024

**4.5 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Y Comisiwn Rhyngwladol ar Warchod Pysgod Tiwna Iwerydd) (Diwygio) (Rhif 2) 2024**

(Tudalennau 2 - 3)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-24 - Papur 21 - Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 29 Chwefror 2024

## 5 Papurau i'w nodi

(13.45 - 13.50)

**5.1 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25**

(Tudalennau 4 - 6)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-24 - Papur 22 - Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 1 Mawrth 2024

## 8 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Lesddaliadau a Rhydd-ddaliadau: Adroddiad drafft

(14.05 - 14.20) (Tudalennau 7 - 24)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-24 – Papur 18 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: DB/00072/24

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.cymru

1 Mawrth 2024

Annwyl Huw

Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn fy neges gynharach atoch ar 23 Chwefror a nododd fod bwriad i gynnal cyfarfod o'r Grŵp Rhynweinidogol ar gyfer Diwylliant a'r Diwydiannau Creadigol ar 4 Mawrth.

Yn anffodus mae'r cyfarfod wedi'i ganslo ar gais DCMS ac mae dyddiad newydd wrthi'n cael ei drefnu.

Hoffwn hefyd eich hysbysu y byddaf yn mynychu cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Chwaraeon ar 1 Mawrth yn Glasgow a gynhelir gan Lywodraeth yr Alban.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad; y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, y Llywydd; a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir,



**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-LG-0154-24

Huw Irranca-Davies, AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Copi i: Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

29 Chwefror 2024

Annwyl Huw,

**Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Y Comisiwn Rhyngwladol ar Warchod Pysgod Tiwna Iwerydd) (Diwygio) (Rhif 2) 2024**

Rwyf wedi cael cais gan yr Arglwydd Douglas-Miller, y Gweinidog Bioddiogelwch, Iechyd a Lles Anifeiliaid, yn gofyn am gydsyniad ffurfiol ar gyfer Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Y Comisiwn Rhyngwladol ar Warchod Pysgod Tiwna Iwerydd) (Diwygio) (Rhif 2) 2024 ("Rheoliadau 2024") sy'n ymwneud â chymhwysedd datganoledig, ac a fydd yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

Mae Rheoliadau 2024 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r Confensiwn Rhyngwladol ar Warchod Pysgod Tiwna Iwerydd ("y Confensiwn"), y mae'r Deyrnas Unedig yn barti contractio iddo.

Mae gan y DU rwymedigaeth o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr i gydweithredu ar reoli stociau pysgod a rennir drwy sefydliadau rhanbarthol neu is-ranbarthol priodol. Caiff rhywogaethau tiwna a thebyg i diwna eu rheoli'n fyd-eang drwy Sefydliadau Rheoli Pysgodfeydd Rhanbarthol; mae'r Confensiwn yn un enghraifft o'r fath.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd y Deyrnas Unedig yn ddarostyngedig yn flaenorol i ofynion y Confensiwn fel Aelod-wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd. Ar ol gadael yr UE, mae'r DU wedi dod yn barti contractio i'r Confensiwn fel Gwladwriaeth arfordirol annibynnol. Mae'r offeryn hwn yn diweddaru ac yn diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir i gyfrif am ofynion pellach o dan y Confensiwn o ran pysgota hamdden a chwaraeon. O dan reolau ICCAT, ni ddylai partïon contractio ganiatáu targedu tiwna asgell las yn eu dyfroedd at ddibenion chwaraeon neu hamdden heb awdurdodiad priodol. Bydd Rheoliadau 2024 yn mewnosod i Reoliad (UE) 2016/1627 a ddargedwir ystod o ddarpariaethau a fydd yn gwahardd pysgota hamdden a chwaraeon heb drwydded gan weinyddiaeth pysgodfeydd, yn achos Cymru a Pharth Cymru, byddai cyhoeddi trwyddedau yn fater i Weinidogion Cymru.

Fel parti contractio, mae gan y DU rwymedigaeth i weithredu mesurau (a elwir yn 'argymhellion') a fabwysiadwyd o dan y Confensiwn. Er bod cynnal cytundebau rhyngwladol yn swyddogaeth a gedwir yn ôl, mae'r rhwymedigaethau a'u gweithrediad wedi'u datganoli i'r graddau y maent yn ymwneud â materion datganoledig (e.e. pysgodfeydd) ac yn ymestyn i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru a Pharth Cymru.

Mae'r Rheoliadau'n diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu argymhellion a fabwysiadwyd o dan y Confensiwn nad ydynt eto wedi'u hadlewyrchu yn y ddeddfwriaeth berthnasol i sicrhau bod y DU yn cyflawni ei rhwymedigaethau rhyngwladol.

Gan fod y Rheoliadau hyn yn gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol ledled y DU mewn perthynas â'r Confensiwn, mae'n briodol eu bod yn cael eu gwneud ar sail y DU. Felly, rwy'n bwriadu rhoi fy nghydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud Rheoliadau 2024, felly mae'r darpariaethau hynny yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

Y dyddiad gosod disgwyliedig yw 14 Mawrth ac mae'r OS yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol sy'n golygu y gellir ei wneud yn dilyn penderfyniad.

Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad a byddaf yn ysgrifennu mewn termau tebyg i Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

seneddDCC@senedd.cymru

1 Mawrth 2024

Annwyl Huw,

Diolch ichi am adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn dilyn y gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25. Gweler fy ymateb i'r tri argymhelliad sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad yn Atodiad 1 isod.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad 1**

**Ymatebion i'r Argymhellion a nodir yn adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn dilyn gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25**

**Argymhelliad 1**

**Dylai'r Cwnsler Cyffredinol roi dyddiad i ni erbyn pryd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hadroddiad cynnydd cyntaf ar y rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Cyhoeddwyd adroddiad cynnydd Sicrhau Cyfiawnder i Gymru ar 22 Chwefror 2024.

**Argymhelliad 2**

**Pan fydd y wybodaeth hon ar gael, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu asesiad cychwynnol o gostau disgwyliedig y diwygiadau i Dribiwnlysoedd Cymru, ochr yn ochr â fersiwn ddrafft o'r bil a fydd yn darparu ar gyfer y diwygiadau hynny.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn. Mae Comisiwn y Gyfraith eisoes wedi darparu asesiadau cychwynnol o gostau disgwyliedig y diwygiadau ac maent hefyd wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Papur Gwyn ar ddiwygio'r tribiwnlysoedd a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023. Bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a fydd yn cyd-fynd â'r Bil yn nodi'n fanylach gostau disgwyliedig y diwygiadau.

Nid ydym yn bwriadu cyhoeddi fersiwn ddrafft o'r Bil cyn ei gyflwyno. Yn ei Ddatganiad Deddfwriaethol blynyddol ym mis Mehefin 2023, nododd y Prif Weinidog fod y Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth yn ymwneud â'r system dribiwnlysoedd ddatganoledig yng Nghymru yn ystod tymor y Senedd hon. Fel y bu inni drafod pan oeddwn i gerbron y Pwyllgor yn gynharach yr wythnos hon, mae amseriad cyflwyno deddfwriaeth o'r fath, wrth gwrs, yn amodol ar y prosesau ar gyfer gosod y Rhaglen Ddeddfwriaethol, a bydd yn cael ei amlinellu gan y Prif Weinidog newydd. Mae nifer o gyfleoedd wedi bod i gymryd rhan yn y broses llunio polisïau, a hynny drwy'r ymgynghoriad sydd eisoes wedi'i gynnal gan Gomisiwn y Gyfraith a Llywodraeth Cymru yn sgil y Papur Gwyn. Rydym yn parhau i ymwneud â'r rhai y mae'r ddeddfwriaeth yn effeithio arnynt wrth inni gwblhau ei chynnwys. Edrychaf ymlaen at barhau i ymwneud â'r Senedd, y Pwyllgorau a'r rhanddeiliaid yn ystod hynt y ddeddfwriaeth.

**Argymhelliad 3**

**Ar ôl cwblhau ei hasesiad cychwynnol o adroddiad y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, dylai Llywodraeth Cymru roi gwybodaeth fanwl i'r Senedd am sut y bydd y dyraniad yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2024-25 i ddatblygu canlyniadau gwaith y Comisiwn yn cael ei ddefnyddio.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Fel y mae'r Pwyllgor wedi'i nodi, gosodwyd y gyllideb ddrafft cyn inni gael adroddiad terfynol y Comisiwn. Fel Llywodraeth, byddwn yn ystyried yr adroddiad terfynol ac yn ymateb i'r Senedd maes o law. Bydd elfen costau staff i'r gyllideb, a fydd yn cael ei hystyried unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi ymateb i argymhellion y Comisiwn. Er hynny, mae'n amlwg y byddai angen rhaglen waith sylweddol i roi argymhellion y Comisiwn ar waith. Byddai nifer ohonynt yn argymhellion i Lywodraeth Cymru arwain arnynt, a byddai eraill yn gofyn am gydweithio â Llywodraeth y DU a Llywodraethau datganoledig eraill.

Yn rhan o'n Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru, rydym wedi gwneud dyraniadau ychwanegol mewn nifer o feysydd yn y Gyllideb Derfynol a gyhoeddwyd yr wythnos hon. Byddwn yn rhoi £1 miliwn yn ychwanegol i ddatblygu'r gwaith ar Ddiwygio Cyfansoddiadol. Mae hyn yn cynnwys cyllid i gaffael ymchwil ar ganlyniadau cyfiawnder yng Nghymru ac i helpu paratoadau ar gyfer datganoli. Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i nodi mewn papur ar y cyd sy'n nodi ystod o feysydd y cytunwyd arnynt lle y mae dyraniadau wedi'u gwneud. Rwy'n fwy na pharod i roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor wrth i'r trafodaethau fynd rhagddynt.

# Eitem 8

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon